

PRIFFYRDD, WALES

2012 Rhif 9

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN
CONWY (YR A470) GWELLIANT MAES
YR HELMAU I CROSS FOXES)
2012**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981⁽²⁾ a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, a phob pŵer galluogi arall⁽³⁾, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion:

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes, yn Nhref Dolgellau yn Sir Gwynedd, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes, yn y Dref a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y Dref a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (ch)gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;

(d) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad a'r cyfryw waith gwella priffyrdd a chyflawni unrhyw waith arall a grybwyllir uchod, ac

(dd)lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (ill dau gyda'u mapiau) wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 5.

2. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map a baratowyd ar ffurf ddyblyg ac a farciwyd "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012".

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen, a dangosir y tir â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau at "the undertaking" yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a adeiledir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythïen o

dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, pa un bynnag fo'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y map” (“*the map*”) yw'r map sydd wedi'i farcio “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012” sydd wedi ei lofnodi gan swyddog o'r awdurdod caffael,;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470);

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” (“*the Trunk Road Order*”) yw “Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012”;

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (“*the Side Roads Order*”) yw “Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012”.

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012.

G R Morgan

Llofnodwyd gan swyddog Llywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Ionawr 2012

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD
CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470)
GWELLIANT MAES YR HELMAU I
CROSS FOXES) 2012**

**PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN
ORFODOL YM MAES YR HELMAU I CROSS
FOXES, GWYNEDD.**

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru, ar 23 Ionawr 2012, wedi gwneud 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012' o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir isod at ddibenion:-

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes, yn Nhref Dolgellau yn Sir Gwynedd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes, yn y Dref a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes) 2012;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y Dref a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (ch) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (d) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad a'r cyfryw waith gwella priffyrdd a chyflawni unrhyw waith arall a grybwyllir uchod, ac
- (dd) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan

fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn fel y'i gwnaed a'r map sy'n gysylltiedig ag ef yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 2 Chwefror 2012 tan 15 Mawrth 2012 yn y swyddfeydd canlynol:

- Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB.
- Llywodraeth Cymru, Yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ.
- Llywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Daw'r Gorchymyn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn gyntaf, ond caiff person a dramgwyddir gan y Gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad y daw'n weithredol, herio ei ddilysrwydd ar y sail:-

- a. nad oes pŵer i roi'r awdurdodiad a roddir gan y Gorchymyn, neu
- b. bod buddiannau'r person hwnnw wedi eu niweidio'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol mewn perthynas â'r Gorchymyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r hysbysiad cyhoeddus yn <http://cymru.gov.uk/?lang=cy> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru' 'Ymylon Ffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2012').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Archebion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD

NODER: Dangosir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft, gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau sydd gyferbyn â'r eitem honno isod.

Yn Nhref Dolgellau:-

Coetir i'r de o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin o'r eiddo a elwir The Lodge. (Plot 1/1).

Coetir i'r dwyrain ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled a lled llawn Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin ac i'r de o'r eiddo a elwir The Lodge; Tir pori garw i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r gogledd o Gefnffordd yr A470; Tir pori garw i'r gogledd o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Cwrs dŵr a thir pori garw i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r gogledd o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Coetir i'r de o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Rhan o Gefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Tir pori garw a rhan o drac mynediad i'r gogledd o Gefnffordd yr A470a rhan o Gefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir The Lodge i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Coetir i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Coetir a chwrs dŵr i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a lled llawn a hanner lled rhan o Gefnffordd yr A470 i'r de-ddwyrain o'r eiddo a elwir The Lodge; Tir pori i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de-ddwyrain o'r eiddo a elwir The Lodge; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin o'r eiddo a elwir 'R Efail; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-ddwyrain o'r ffordd ddiddosbarth i Tabor; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r dwyrain o'r ffordd ddiddosbarth i Tabor; Tir pori a chyrsgau dŵr i'r de-ddwyrain o'r ffordd ddiddosbarth i Tabor ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Rhan o Gefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a rhan o Gefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori a chwrs dŵr i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Coetir a chyrsgau dŵr i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470; Coetir a chwrs dŵr i'r de-ddwyrain o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Tir pori a chyrsgau dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwech ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac

mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori a chyrsgiau dŵr i'r de-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch a rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r gogledd o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch; Tir pori a chwrs dŵr i'r de-ddwyrain o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r de-ddwyrain o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled rhan o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal cwlffert a phenwal newydd ar gwrs dŵr a thir pori garw i'r gogledd gorllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r gogledd o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal arglawdd newydd ar gwrs dŵr a thir pori garw i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r gogledd o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal cwlffert newydd a dargyfeirio ffrwd, ar goetir a chwrs dŵr i'r gorllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r de o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar goetir a chwrs dŵr i'r de o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori i'r de-ddwyrain o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar goetir a chwrs dŵr i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r gogledd o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, ar dir pori a chwrs dŵr i'r

gogledd-orllewin o'r trac at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal newydd ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd dwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal penwal a chwlfert newydd ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal penwal a chwlfert newydd ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch a rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470. (Plotiau 1/2, 1/2a, 1/2b, 1/2c, 1/2d, 1/2e, 1/2f, 1/2g, 1/2h, 1/2i, 1/2j, 1/2k, 1/2l, 1/2m, 1/2n, 1/2o, 1/2p, 1/2q, 1/2r, 1/2s, 1/2t, 1/2u, 1/2v, 1/2w, 1/2x, 1/2y, 1/2z, 1/2aa, 1/6, 1/6a, 1/6b, 1/6c, 1/6d, 1/6e, 1/6f, 1/6g, 1/7, 2/1, 2/1a, 2/1b, 2/1c, 2/1d, 2/1e, 2/1f, 2/3, 2/3a, 2/3b, 2/3c, 2/3d, 2/3e, 2/3f, 2/3g, 2/3h, 2/3i, 2/3j, 2/3k, 2/3l, 2/3m a 2/3n).

Coetir a chwrs dŵr i'r de o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin o'r eiddo a elwir The Lodge; Tir pori, rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir Hendre Gyfeilliad, a hanner lled y ffordd ddiddosbarth i Tabor i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin o'r eiddo a elwir 'R Efail; Rhan o drac mynediad at yr eiddo a elwir Hendre Gyfeilliad a rhan o dir pori i'r dwyrain o'r eiddo a elwir Hendre Gyfeilliad i'r de o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r de o Gefnffordd yr A470a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gorllewin o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori i'r de-orllewin o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal cwlffert newydd a dargyfeirio ffrwd ar goetir a chwrs dŵr i'r gorllewin o'r eiddo a elwir The Lodge ac i'r de o Gefnffordd yr A470. (Plotiau 1/3, 1/3a, 1/4, 1/4a, 1/4b, 1/4c, 1/4d, 1/4e, 1/4f, 1/4g, 1/4h, 1/4i, 1/4j ac 1/4k).

Tir pori a hanner lled rhan o'r ffordd ddiddosbarth i Tabor i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail;

Tir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Tir pori a chwrs dŵr i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r de o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail; Coetir, tir pori a chwrs dŵr i'r gorllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Coetir a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r de-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r de o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch; Tir pori a rhan o drac mynediad i gae, i'r de o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, ar dir pori i'r de o'r eiddo a elwir 'R Efail ac i'r de o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar goetir a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, penwal a chwlfert ar goetir a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, penwal a chwlfert ar goetir a chwrs dŵr i'r gorllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori i'r gorllewin o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal wal gynnal newydd ar dir pori i'r de o'r trac mynediad at yr eiddo a elwir Fferm Caerynwch ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A470 a rhan o Gefnffordd yr A470. (Plotiau 1/5, 1/5a,

1/5b, 1/5c, 1/5d, 1/5e, 1/5f, 1/5g, 2/2, 2/2a, 2/2b, 2/2c, 2/2d, 2/2e, 2/2f, 2/2g, 2/2h, 2/2i, 2/2j, 2/2k, 2/2l, 2/2m, 2/2n, 2/2o, 2/2p, 2/2q, 2/2r a 2/2s).

Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470 a hanner lled rhan o Gefnffordd yr A470; Hanner lled Cefnffordd yr A470 i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r de-orllewin o Gefnffordd yr A470 a rhan o Gefnffordd yr A470. (Plotiau 2/4, 2/4a a 2/4b).

Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470 a hanner lled Cefnffordd yr A470; Tir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Tir pori i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r dwyrain o Gefnffordd yr A470; Yr hawl i fynd i mewn at bob diben mewn cysylltiad ag adeiladu a chynnal penwal a chwlfert newydd a ffens newydd ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar dir pori a chwrs dŵr i'r gogledd-orllewin o'r eiddo a elwir Rhiwspardyn ac i'r gogledd-ddwyrain o Gefnffordd yr A470. (Plotiau 2/6, 2/6a, 2/6b, 2/6c, 2/6d, 2/6e, 2/6f a 2/6g).

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru